

CYMUNED A RENNIR – SIARTER RHWNG CYNGOR SIR Y FFLINT A CHYNGHORAU TREF A CHYMUNED

2012



**Cyngor Sir y Fflint a Chynghorau Tref a Chymuned
yn Gweithio mewn Partneriaeth**



PARTNERIAID YN Y SIARTER

Rydym ni, y rhai sydd wedi'n henwi isod, yn datgan ein hymrwymiad i'r Siarter hon a'i hegwyddorion a'i datganiadau er budd pobl leol ac wrth wneud hynny, ein nod yw gwella ein harferion gwaith da a chofleidio ysbryd y cytundeb hwn.

Rydym yn derbyn cyfreithlondeb a manteision gweithio mewn partneriaeth gan gydnabod a pharchu rôlau ein gilydd ar yr un pryd. Ein nod yw gweithio gyda'n gilydd fel partneriaeth o bobl gyfartal yn hytrach na haenau.

Rydym yn gwerthfawrogi'r angen am wybodaeth amserol, glir a pherthnasol a chyfathrebu am feithrin cydberthnasoedd da a chydweithio gwell er budd pobl leol.

Mae'r Siarter yn diffinio 'Partneriaeth' fel gweithio gyda'n gilydd tuag at set gyffredin o nodau, yn seiliedig ar gydraddoldeb o ran perchnogaeth, gwneud penderfyniadau a chydabod cyfraniad arbennig pob parti. Cydnabyddir bod partneriaeth gyfartal ac effeithiol yn dod â manteision a chyfrifoldebau i bawb sy'n gysylltiedig. Mae'n rhaid i lywodraeth leol ar y ddwy haenen weithio gyda'i gilydd i hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ein hardal. Os yw gwneud y pethau hyn yn wahanol yn cyflenwi gwasanaeth gwell, byddwn yn archwilio'r dulliau hyn o ddifrif.

Prif Weithredwr, Cyngor Sir y Fflint

Cyngor Cymuned Argoed	Cyngor Cymuned Llanasa
Cyngor Cymuned Bagillt	Cyngor Cymuned Llanfynydd
Cyngor Cymuned Broughton a Bretton	Cyngor Tref yr Wyddgrug
Cyngor Cymuned Brynford	Cyngor Cymuned Mostyn
Cyngor Tref Bwcle	Cyngor Cymuned Nannerch
Cyngor Tref Caerwys	Cyngor Cymuned Nercwys
Cyngor Cymuned Cilcain	Cyngor Cymuned Llaneurgain
Cyngor Tref Cei Connah	Cyngor Cymuned Northop Hall
Cyngor Tref y Fflint	Cyngor Cymuned Penyffordd
Cyngor Cymuned Gwernaffield	Cyngor Cymuned Queensferry
Cyngor Cymuned Gwernymynydd	Cyngor Tref Saltney
Cyngor Cymuned Helygain	Cyngor Cymuned Sealand
Cyngor Cymuned Penarlâg	Cyngor Tref Shotton
Cyngor Cymuned Higher Kinnerton	Cyngor Cymuned Trelawnyd a Gwaenysgor
Cyngor Tref Treffynnon	Cyngor Cymuned Treuddyn
Cyngor Cymuned yr Hob	Cyngor Cymuned Chwitffordd
Cyngor Cymuned Leeswood	Cyngor Cymuned Ysceifog

CYFLWYNIAD

Mae Cynghorau Tref a Chymuned a Chyngor Sir y Fflint wedi cytuno i gyhoeddi Siarter sy'n amlinellu sut rydym yn anelu at weithio gyda'n gilydd er budd cymunedau lleol gan gydnabod ein cyfrifoldebau priodol fel cyrff statudol annibynnol sydd wedi'u hethol yn ddemocrataidd.

Mae nod cyffredinol y Siarter wedi'i gynllunio i wella cydberthnasoedd rhwng haenau llywodraeth leol yn Sir y Fflint ac adeiladu ar arfer da presennol a chofleidio egwyddorion a rennir o ran didwylledd, parch at farn pobl eraill, gonestrwydd a'n blaenoriaeth gyffredin, sef democratiaeth leol a pharchu barn leol a dewis. Mae'r Siarter hon wedi'i seilio ar bartneriaeth gyfartal ac nid yw'n drefniant o'r brig i'r gwaelod.

Mae 34 o Gynghorau Tref a Chymuned yn Sir y Fflint, ac mae gan bob un ran i'w chwarae yng ngwneuthuriad bywyd lleol.

Mae'r Siarter hon wedi cael cymeradwyaeth ac ymrwymiad llawn Cyngor Sir y Fflint a phob un o'r Cynghorau Tref a Chymuned yn Sir y Fflint.

Bydd y Siarter hon yn parhau i gael ei monitro a'i hadolygu gan Gyngor Sir y Fflint a Chynghorau Tref a Chymuned Sir y Fflint mewn partneriaeth, gyda'r bwriad o wneud diwygiadau pellach lle bynnag y bo angen.

CYNLLUN GWEITHREDU

Caiff y Siarter hon ei chefnogi gan ddatblygu Cynllun Gweithredu blynyddol sy'n mynd i'r afael â phob un o'r pynciau unigol a geir ynddynt. Caiff y Cynllun Datblygu ei ddatblygu ar y cyd a bydd yn priodoli cyfrifoldebau i bob partner. Caiff camau gweithredu eu hategu gan derfyn amser ac adroddir arnynt o leiaf bob chwe mis yn ystod y flwyddyn dan sylw.

CYDNABYDDIAETH

Rydym yn derbyn cyfreithlondeb a buddion gweithio mewn partneriaeth gan gydnabod a pharchu rolau ein gilydd yr un pryd. Ein nod yw gweithio gyda'n gilydd fel partneriaeth gyfartal yn hytrach na haenau.

Cyngor Sir y Fflint	Cynghorau Tref a Chymuned
Mae'n cydnabod mai Cynghorau Tref a Chymuned yw lefel fwyaf lleol llywodraeth leol. Yn eu rôl fel cyrff sy'n ddemocrataidd atebol, mae Cynghorau Tref a Chymuned yn cynnig dull o ymgysylltu â phobl leol, o ddatganoli darparu gwasanaethau penodol, ac o adfywio cymunedau lleol.	Maent yn cydnabod pwysigrwydd strategol y Cyngor Sir ac arbedion maint a dosbarthiad teg llawer o wasanaethau y gallant eu cyflawni.
Mae'n cydnabod ac yn parhau amrywiaeth Cynghorau Tref a Chymuned a bod eu hangenion yn amrywio yn ôl maint ac i'r graddau y mae eu cyfraniad yn amrywio.	Mae'n cydnabod bod Cynghorau Tref a Chymuned yn disgyn o fewn ffiniau ac arweinyddiaeth gymunedol y Cyngor Sir.

LLYWODRAETH LEOL

Byddwn yn glir am y disgwyliadau sydd gennym am ein gilydd er mwyn hwyluso cydberthnasoedd gwaith da. Yn hyn o beth, byddwn yn diffinio'r ffordd rydym yn rhyngweithio â'n gilydd. Byddwn yn glir am rôl Cynghorwyr ar bob lefel o ran y gydberthynas ac o ran arweinyddiaeth gymunedol.

Bydd Cyngor Sir y Fflint:-	Bydd Cynghorau Tref a Chymuned:-
Yn cynnal cyfarfodydd Fforwm Sirol gyda chynrychiolwyr pob Cyngor Tref a Chymuned sydd am gymryd rhan. Caiff y cyfarfodydd hyn eu cynnal o leiaf dair gwaith y flwyddyn.	Yn cyfrannu tuag at agenda cyfarfodydd y Fforwm Sirol a chyfrannu'n rhagweithol at bresenoldeb a thrafodaethau.
Yn penodi aelod enwebedig o staff i fod yn swyddog cyswllt rhwng Cyngor Sir y	Yn cysylltu â'r swyddog enwebedig ynghylch y materion y cytunir arnynt a'i

Fflint a Chyngorau Tref a Chymuned Sir y Fflint.	wneud yn ymwybodol o unrhyw anawsterau y deuir ar eu traws.
Yn trafod gyda Chyngorau Tref a Chymuned sut y gallant gyfrannu orau at weithredu Partneriaethau allweddol lleol.	Yn gwahodd Cyngorwyr/Swyddogion (fel bo'n briodol) Cyngor Sir y Fflint i gyfarfodydd a lle bo angen, yn darparu lle ar agenda'r cyfarfod ar gyfer cyflwyniadau.
Yn galw cyfarfodydd yn ôl yr angen/pan ystyrir bo angen lle mae cynnwys Cyngorau Tref a Chymuned yn angenrheidiol a lle bo'n ymarferol, yn eu cynnal gyda'r nos.	Yn hysbysu'r Cyngor Sir am ddyddiadau ac amllder cyfarfodydd Cyngorau Tref a Chymuned.

YMGYNGHORI A CHYFATHREBU

Rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ymgynghori ystyrion a gwnaethom amlinellu ymrwymiad gwirioneddol ymhlith ein holl bartion i ymgynghori ar faterion sydd o bwys i bawb dan sylw. Byddwn yn cytuno ar weithdrefnau a phrosesau clir, penodol ac sydd wedi'u cyfyngu gan amser ar gyfer ymgynghori.

Bydd Cyngor Sir y Fflint:-	Bydd Cyngorau Tref a Chymuned:-
Yn anelu at roi'r cyfle i Gynghorau Tref a Chymuned roi sylwadau cyn gwneud penderfyniad sy'n effeithio ar y gymuned leol. Yn ogystal â hyn, bydd Cyngor Sir y Fflint yn cynghori Clercod ynghylch dyddiadau ei gyfarfodydd cyhoeddus ar ddechrau'r flwyddyn drefol ac yn sicrhau bod Agendâu ac Adroddiadau cyfarfodydd ar gael ar wefan y Cyngor.	Yn ymateb i gyfleoedd ymgynghori mewn ffordd amserol, gan fynd i'r afael â'r materion allweddol yn y ddogfen ymgynghori. Yn gwneud defnydd llawn o'r papurau sydd ar gael iddynt i hysbysu'r broses gwneud penderfyniadau.
Yn sicrhau bod Swyddogion ar gael i fynd i gyfarfodydd gyda Chyngorau Tref a Chymuned (neu grwpiau Cyngorau) ar amser cytûn i drafod materion sydd o ddiddordeb cyffredin pan fo angen	Yn rhoi'r cyfle i Gynghorwyr a Swyddogion Sir y Fflint siarad yng nghyfarfodydd Cyngor Tref a Chymuned ar faterion sydd o ddiddordeb cyffredin.

<p>gwneud hynny ac o gael rhybudd digonol (lleiafswm o dair wythnos oni bai yr ystyrir bod angen gwneud hynny ar frys).</p>	
<p>Yn annog Cyngorau Tref a Chymuned i gyflwyno eitemau ar gyfer trafodaeth i Bwyllgor Craffu perthnasol y Cyngor Sir.</p>	<p>Yn ymateb i geisiadau i gyflwyno barnau/eitemau i Bwyllgorau Craffu.</p>
<p>Lle yr ymgynghorwyd â Chyngor Tref neu Gymuned yn ffurfiol, ceisio rhoi gwybod iddo am ganlyniad y penderfyniad a wnaed a hwyluso mynediad i'r rhesymau dros y penderfyniad; yn amodol ar gadarnhad yn Llawlyfr Gweithdrefnau Gwasanaethau Rheoli Datblygiad.</p>	<p>Yn rhoi manylion cyswllt diweddaraf Clerc y Cyngor i'r Cyngor Sir.</p>
<p>Yn ymateb i adroddiadau lle mae angen camau gweithredu adferol o ran darparu gwasanaethau.</p>	<p>Yn ceisio rhoi gwybod i'r Cyngor Sir pan fo angen camau gweithredu brys e.e. coed peryglus neu goed sydd wedi syrthio, signalau traffig anweithredol a dadleoli signalau traffig, llifogydd ar y ffyrdd, tyllau yn y ffordd, cerrig a chyrbau rhydd neu anwastad, niwed i bolion neu golofnau goleuo anniogel neu rai sydd wedi syrthio.</p>
<p>Wrth ymgynghori, yn caniatáu digon o amser i Gynghorau Tref a Chymuned drafod ac ymateb, cyn i Sir y Fflint wneud penderfyniad sy'n effeithio ar ei chymuned leol.</p>	<p>Yn ymateb i ymgynghoriadau gan y Cyngor Sir ar gynllunio ac unrhyw faterion eraill o fewn y terfyn amser a nodir yn yr ymgynghoriad.</p>
<p>Yn gwahodd Cyngorau Tref a Chymuned i fforymau codi ymwybyddiaeth a fforymau rhanddeiliaid lle y caiff y rhain eu defnyddio fel ffordd arall o ymgysylltu â chymunedau ac y byddant yn rhoi adborth amserol ar ganlyniadau fforymau codi ymwybyddiaeth a fforymau rhanddeiliaid o'r fath.</p>	<p>Yn mynychu unrhyw fforymau codi ymwybyddiaeth a/neu fforymau rhanddeiliaid lle bo'n bosibl.</p>
<p>Yn adrodd ar farnau Cyngorau Tref a Chymuned yn gywir i'r Cyngorwyr hynny sy'n gwneud penderfyniadau.</p>	<p>Yn rhoi gwybod i'r Cyngor Sir am faterion sy'n berthnasol i'r gymuned leol.</p>

Yn hwyluso defnydd ein gwefan gan Gyngorau Tref a Chymuned ar gyfer cyhoeddi materion a gwybodaeth o ddiddordeb a phryder lleol.	Lle bo'n briodol, yn rhoi gwybod i'r Cyngor Sir am faterion a gwybodaeth o ddiddordeb lleol y gellir eu cyhoeddi ar wefan Cyngor Sir y Fflint.
Yn hybu defnydd cyfryngau electronig ar gyfer ymgynghori lle bo'n briodol, gan sicrhau bod copïau caled ar gael ar gais.	Yn annog Cyngorau Tref a Chymuned i ddefnyddio cyfryngau electronig yn fwy, yn enwedig o ran ymgynghori.
Yn ystyried y posibilrwydd o anfon neges e-bost i Gyngorau Tref a Chymuned pan fo adrannau perthnasol o wefan y Cyngor Sir wedi'u diweddarau.	

GWYBODAETH

Rydym yn gwerthfawrogi'r angen am wybodaeth amserol, glir a pherthnasol a chyfathrebu o ran meithrin cydberthnasoedd da a chydweithio gwell er budd pobl lleol.

Bydd Cyngor Sir y Fflint:-	Bydd Cyngorau Tref a Chymuned:-
Yn darparu rhestr o Gyngorau Tref a Chymuned yn cynnwys enwau cyswllt, rhifau ffôn a, lle bo'n bosibl, cyfeiriadau e-bost ar gyfer gwasanaethau allweddol yng Nghyngor Sir y Fflint.	Yn defnyddio'r pwyntiau cyswllt cytûn ac ymateb yn y dull mwyaf priodol ac amserol.
Yn cydnabod yr holl ohebiaeth ysgrifenedig gan Gyngorau Tref a Chymuned (gan gynnwys llythyrau, ffacsys a negeseuon e-bost). Caiff ymateb sylweddol i'r holl ohebiaeth ysgrifenedig lle mae angen ymateb o fewn deng niwrnod gwaith oni bai bod amgylchiadau'n mynnu nad oes modd bodloni'r terfyn amser hwn. Os felly, bydd Cyngor Sir y Fflint yn rhoi cydnabyddiaeth o'r ohebiaeth ysgrifenedig o fewn deng niwrnod gwaith, a bydd y gydnabyddiaeth yn cynnwys terfyn amser arfaethedig ar gyfer yr ymateb sylweddol.	Yn sicrhau bod gan bob Cyngorydd Tref a Chymuned fynediad i'r dogfennau priodol.

Yn darparu data ystadegol i Gynghorau Tref a Chymuned yn ôl yr angen.	Yn rhoi gwybod i'r Cyngor Sir wrth gyflawni prosesau cynllunio a arweinir gan y gymuned megis Cynlluniau Tref/Cymuned a cheisio cynnwys y Cyngor Sir yn ôl yr angen.
---	--

YMHOLIADAU A CHWYNION

Bydd Cyngor Sir y Fflint:-	Bydd Cynghorau Tref a Chymuned:-
Ar ôl derbyn materion y rhoddir gwybod amdanynt, yn ymchwilio i faterion o'r fath yn unol â pholisi a gweithdrefn berthnasol y Cyngor.	Yn dilyn/defnyddio Polisi a Gweithdrefnau "Canmoliaeth, Sylwadau a Chwynion" Cyngor Sir y Fflint lle bo'n briodol.
Yn ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gynghorau Tref a Chymuned am ymholiadau neu gwynion a wneir yn erbyn Cyngor Sir y Fflint fel corff corfforaethol neu yn erbyn swyddogion / aelodau Cyngor Sir y Fflint.	

CYDWEITHIO AC YMGYSYLLTU

Mae'r Siarter yn diffinio 'Partneriaeth' fel gweithio gyda'n gilydd tuag at set gyffredin o nodau, wedi'u seilio ar gydraddoldeb o ran perchnogaeth, gwneud penderfyniadau a chydabod cyfraniad unigryw pob parti. Cydnabyddir bod partneriaeth gyfartal ac effeithiol yn dod â manteision a chyfrifoldebau i bawb sy'n gysylltiedig. Mae'n rhaid i lywodraeth leol ar y ddwy haenen weithio gyda'i gilydd i hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ein hardal. Os bydd gwneud pethau'n well yn cynnig gwasanaeth gwell, byddwn yn archwilio'r dulliau hyn o ddifrif.

Dylid darllen y pwyntiau isod ar y cyd â thudalen 11 'Trefniadau Ariannol'.

Bydd Cyngor Sir y Fflint:-	Bydd Cynghorau Tref a Chymuned:-
Yn cynnig cyfleoedd i Glercod Cynghorau Tref a Chymuned gyfarfod i drafod pryderon cyffredin a datrys	Yn annog Clercod i achub ar gyfleoedd i rwydweithio a rhannu pryderon cyffredin.

materion sy'n cynnwys Cyngor Sir y Fflint yn uniongyrchol.	
Yn glir am sut y gellir trafod a chytuno ar wasanaethau datganoledig.	Yn defnyddio'r gwasanaethau cytûn os oes awydd i ddatblygu gwasanaethau datganoledig.
Yn rhoi ystyriaeth briodol i ddatganoli gwasanaethau a fyddai'n cynnig gwerth gwell am arian a/neu wasanaethau gwell.	Yn glir am y modd y bydd unrhyw ddatganoli o ran gwasanaethau'n cynnig gwerth gwell am arian a/neu wasanaethau gwell.
Yn annog atebolrwydd am bob gweithgaredd a gaffaelir neu a ddatganolir.	Yn cymryd cyfrifoldeb am bob agwedd ar gydweithio y cytunir arni.
Yn ceisio gweithio'n gadarnhaol gyda Chynghorau Tref a Chymuned ar faterion megis ardaloedd adnewyddu, cynllunio Canol Tref, Cymunedau yn Gyntaf ac ati a bydd yn trafod meysydd eraill gyda Chynghorau Tref a Chymuned lle y gallai fod yn fuddiol i bawb ddatblygu trefniadau cydweithio ymhellach.	Yn gweithio'n gadarnhaol gyda'r Cyngor Sir i uchafu cyfleoedd am gydweithio yn y dyfodol.

DEFNYDDIO A CHYNLLUNIO TIR

Mae Cynghorau Tref a Chymuned yn adnabod ac yn deall eu hardal leol ac mae'n rhaid iddynt allu roi sylwadau ar faterion cynllunio yn effeithiol. Gall Cyngor Sir y Fflint roi trosolwg o anghenion yr ardal leol gyfan a gwneud penderfyniadau, gan ystyried barn pobl leol.

Bydd Cyngor Sir y Fflint:-	Bydd Cynghorau Tref a Chymuned:-
Yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau cynllunio cytûn a amlinellir.	Yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau cynllunio cytûn a amlinellir.
Yn cynnal ei ddyletswydd statudol i ymgynghori â Chynghorau Tref a Chymuned ynghylch pob cais cynllunio yn eu cymunedau.	Yn gwneud ymatebion priodol i Gyngor Sir y Fflint gan gydnabod y paramedrau a osodir gan y gyfraith gynllunio a pholisi cynllunio cytûn.
Yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig am benderfyniad a wneir mewn perthynas â chais cynllunio yn ei ardal a hwyluso mynediad i'r rhesymau y tu ôl i'r penderfyniad.	Yn sicrhau bod Cynghorwyr yn cael hyfforddiant am faterion cynllunio gan Swyddogion / cyrff perthnasol a bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn am sut mae cyfraith gynllunio'n gweithio.
Yn rhoi gwybodaeth i Gynghorau Tref a Chymuned am gyfarfodydd perthnasol y	Yn achub ar y cyfle i fynyachu cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio i roi sylwadau ar

Pwyllgor Cynllunio fel y gallant fynychu fel arsylwyr neu gyfranogwyr yn unol â Sylwadau Trydydd Parti ar Brocol y Pwyllgor Cynllunio.	Geisiadau y mae ganddynt ddi-ddordeb ynddynt.
Yn gwahodd Cynghorau Tref a Chymuned i leiafswm o Gyfarfodydd Grŵp Ffocws Defnyddwyr Cynllunio y flwyddyn ac yn defnyddio'r cyfarfodydd hyn ar gyfer hyfforddiant ar faterion cynllunio perthnasol.	Yn annog pobl i gymryd rhan yng Nghyfarfodydd Grŵp Ffocws Defnyddwyr Cynllunio.
Yn trafod gyda Chynghorau Tref a Chymuned sut y gallant gyfrannu orau at ddatblygu a chyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol yn effeithiol.	Yn ceisio cyfrannu'n llawn at ddatblygu a chyflwyno Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir y Fflint yn effeithiol.

CYMORTH YMARFEROL AC ARBENIGEDD

Byddwn yn annog datblygu parhaus o ran swyddogion ac aelodau yng Nghyngor Sir y Fflint a Chynghorau Tref a Chymuned, naill ai yn eu grwpiau unigol neu gyda'i gilydd. Mae arbenigedd gwell yn arwain at broffesiynoldeb a chydweithio mwy effeithiol.

Er mwyn bod yn effeithiol, mae'n rhaid i aelodau a swyddogion a etholir gael eu hyfforddi'n dda a chael y cymorth sydd ei angen arnynt i gyflawni eu rôlau.

Bydd Cyngor Sir y Fflint:-	Bydd Cynghorau Tref a Chymuned:-
Yn cynnig i Gynghorau Tref a Chymuned fynediad i wasanaethau cymorth er mwyn eu galluogi i fanteisio ar gyfleusterau megis argraffu, TG a phrynu ar bris y cytunir arno ar y cyd.	Yn dilyn gweithdrefnau a amlinellir i fanteisio ar wasanaethau cymorth Cyngor Sir y Fflint, ond hefyd yn cael y cyfle i wneud eu trefniadau eu hunain.
Yn cynnig hyfforddiant ymsefydlu aelodau i Gynghorwyr Tref a Chymuned i'w galluogi i ddeall rôl a swyddogaeth y Cyngor Sir.	Yn cynnig cyfnod ymsefydlu i Gynghorwyr newydd eu hethol er mwyn eu galluogi i gyflawni eu rôl yn effeithiol.
Yn trafod ymhellach gyda Chynghorau Tref a Chymuned y ffordd orau o ddarparu hyfforddiant perthnasol parhaus i aelodau yn y dyfodol.	Yn darparu'r ddogfennaeth berthnasol i Gynghorwyr newydd eu hethol gyflawni eu rôl e.e. Canllaw'r Cynghorwyr Da (fel y'i cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru), y Cod Ymddygiad a Rheolau Sefydlog. Caiff yr hyfforddiant angenrheidiol mewn perthynas â'r uchod ei ddarparu hefyd.

Yn cefnogi Cyngorau Tref a Chymuned o ran datblygu Cynlluniau Cymunedol, lle bo'n ymarferol	Yn gwahodd cymorth gan Gyngor Sir y Fflint o ran datblygu Cynlluniau Cymunedol os bydd angen hynny.
---	---

MOESEG

Byddwn yn darparu gwasanaeth moesegol i bobl leol, gan ddilyn y Safonau a'r Codau Ymddygiad priodol. Byddwn yn annog cysylltiadau rhwng Clercod Cyngorau Tref a Chymuned a Phwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint.

Bydd Cyngor Sir y Fflint:-	Bydd Cyngorau Tref a Chymuned:-
Drwy'r Swyddog Monitro penodedig, yn cefnogi Cyngorau Tref a Chymuned o ran ystyried a rhoi cyngor yn amserol mewn perthynas â chymhwyso'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau.	Yn sicrhau nad yw Cyngorwyr Tref a Chymuned yn gwneud cwynion blinderus o dan y Cod Ymddygiad a byddant yn darparu'r holl wybodaeth o'r fath y mae ei hangen ar y Swyddog Monitro.
Yn sicrhau bod aelodau'r Cyngor Sir yn ymwybodol o'r angen i gadw at y Cod Ymddygiad.	Yn sicrhau bod aelodau'n ymwybodol o'r angen i gadw at Reolau Sefydlog a'r Cod Ymddygiad.

TREFNIADAU ARIANNOL

Mae Cyngor Sir y Fflint a Chyngorau Tref a Chymuned yn cydnabod yr angen am eglurder a thryloywder o ran trefniadau ariannol. Wrth ddatblygu a rhoi trefniadau ariannol ar waith, caiff blaenoriaethau cenedlaethol a lleol perthnasol eu hystyried.

Bydd Cyngor Sir y Fflint:	Bydd Cyngorau Tref a Chymuned:-
Yn ystyried gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan Gyngorau Tref a Chymuned yn ei hardal wrth bennu lefel treth cyngor yr ardal a'r cyllid cysylltiedig. Bwriad hyn fydd osgoi trethi dwbl.	Yn ystyried cynlluniau darparu gwasanaethau Cyngor Sir y Fflint dros y flwyddyn sydd i ddod wrth bennu'r archebiant blynyddol.
Lle bo darparu gwasanaeth wedi'i ddatganoli neu lle y caiff ei drosglwyddo i	Yn cytuno ar lefel y cyllid i'w drosglwyddo cyn i unrhyw wasanaethau gael eu

Gyngor Tref neu Gymuned, gan sicrhau bod cyllid hefyd yn cael ei drosglwyddo a bydd Cyngor Sir y Fflint a'r Cyngor Tref neu Gymuned yn cytuno ar y swm dan sylw.	datganoli i Gyngor Tref neu Gymuned.
--	--------------------------------------

DIRPRWYO CYFRIFOLDEB AM DDARPARU GWASANAETHAU

Dylai gwasanaethau gael eu cyflwyno yn y ffordd fwyaf priodol, o ran gwerth am arian a gwerth ychwanegol i bobl leol.

Bydd Cyngor Sir y Fflint:-	Bydd Cyngorau Tref a Chymuned:-
Yn rhoi ystyriaeth briodol i'r holl achosion a ddadleuir yn rhesymol ar gyfer dirprwyo cyflwyno gwasanaethau i Gyngorau Tref a Chymuned, gan seilio ei ystyriaeth yn bennaf ar wella darparu gwasanaethau i ddinasyddion gan sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gadw neu ei wella.	Yn ystyried p'un a oes elfennau o ddarparu gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan Gyngor Sir y Fflint ar hyn o bryd a allai gael eu cynnig yn fwy priodol gan Gyngorau Tref a Chymuned.
Yn chwilio am ffordd y gellid defnyddio gwybodaeth leol o gymunedau i wella darparu gwasanaethau i fodloni anghenion dinasyddion yn well, lle nad yw'n briodol neu'n ddymunol dirprwyo darparu gwasanaethau.	Yn ymgysylltu â'r dinasyddion yn y cymunedau maent yn eu gwasanaethau i ddeall eu hanghenion yn well a chyfleu'r anghenion hyn mewn ffordd gydlynol ac adeiladol i Gyngor Sir y Fflint, fel bod modd eu hystyried o ran dylunio a darparu gwasanaethau.

CYNALIADWYEDD

Byddwn yn gweithio mewn ffordd sy'n gynaliadwy, gan gysoni'r anghenion hir dymor â'r anghenion presennol, a diogelu a gwella ansawdd bywyd y cenedlaethau presennol, ond heb fod ar draul ansawdd bywyd cenedlaethau'r dyfodol.

Bydd Cyngor Sir y Fflint:-	Bydd Cyngorau Tref a Chymuned:-
Yn cynorthwyo Cyngorau Tref a Chymuned o ran gwybodaeth am arferion cynaliadwy.	Yn mynd ati i asesu cynaliadwyedd arferion a phrosesau cyfredol.

Yn amlinellu sut mae'r Cyngor yn mynd ati i roi datblygu cynaliadwy ar waith.	Yn annog prosiectau sy'n cyfrannu at gynaliadwyedd lle maent yn fuddiol i'r gymuned.
Yn gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau Tref a Chymuned i hybu datblygu cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cynaliadwy er budd cymunedau lleol, gan sicrhau nad yw ar draul ansawdd bywyd cenedlaethau'r dyfodol.	Yn gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau Tref a Chymuned i hybu datblygu cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cynaliadwy er budd cymunedau lleol, gan sicrhau nad yw ar draul ansawdd bywyd cenedlaethau'r dyfodol.

STRATEGAETH GYMUNEDOL

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd strategol y Strategaeth Gymunedol fel gweledigaeth gyffredinol cyrff partneriaeth y Sir. Yn ogystal, rydym yn cydnabod y bydd y Strategaeth Gymunedol ond yn gwbl effeithiol os caiff ei lywio gan brofiadau ar lawr gwlad yn ein cymunedau.

Bydd Cyngor Sir y Fflint:-	Bydd Cynghorau Tref a Chymuned:-
Yn trafod gyda Chynghorau Tref a Chymuned y ffordd orau y gallant gyfrannu at ddatblygu a chyflwyno'r Strategaeth Gymunedol yn effeithiol.	Yn cyfrannu at ddatblygu'r Strategaeth Gymunedol.
Yn cynnwys Cynghorau Tref a Chymuned o ran rhoi'r Strategaeth Gymunedol ar waith.	Yn ymateb yn weithgar ac yn llawn i ymgynghori ar y Strategaeth Gymunedol ddrafft ac yn cymryd rhan yn y broses fonitro a rhoi'r Strategaeth Gymunedol ar waith.

ETHOLIADAU LLEOL

Mae etholiadau teg ac agored wrth wraidd democratiaeth leol. Byddwn yn sicrhau bod eu hetholiadau'n cael eu cynnal yn rhydd ac yn deg, gan annog pobl leol i fod yn rhan o ddemocratiaeth leol.

Bydd Cyngor Sir y Fflint:-	Bydd Cynghorau Tref a Chymuned:-
Yn gweinyddu cynnal etholiadau Cynghorau Tref a Chymunedol.	Yn rhoi gwybod am yr angen am etholiadau mewn ffordd amserol.

Yn cynnwys Cyngorau Tref a Chymuned yn y broses cynllunio etholiadau lleol.	Yn annog aelodau'r gymuned leol i gymryd rhan yn y broses ethol leol.
Yn cynnwys Cyngorau Tref a Chymuned mewn unrhyw ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth/ cyhoedduswydd i annog enwebiadau am ymgeiswyr mewn etholiadau lleol.	Yn sicrhau bod swyddi gwag ar Gyngorau Tref a Chymuned yn cael eu cyhoeddi i uchafu cynrychiolaeth y gymuned.
Yn helpu i gyhoeddi etholiadau lleol sydd i ddod ar ran Cyngorau Tref a Chymuned.	Yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i Gyngor Sir y Fflint er mwyn eu galluogi i gyhoeddi unrhyw etholiadau sydd i ddod ar eu rhan.
Yn briffio Clercod Cyngorau Tref a Chymuned am y broses enwebu fel eu bod yn barod i gynorthwyo unrhyw ddarpar ymgeiswyr sy'n sefyll yn yr etholiadau lleol.	
Yn rhoi cymorth a chefnogaeth gyda phrosesau a gweithdrefnau cyfreithiol a gweinyddol etholiadau lleol.	

CYFLE CYFARTAL

Mewn partneriaeth â Chyngorau Tref a Chymuned, rydym yn benderfynol o ddileu gwahaniaethu o bob math gan hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wrth wraidd popeth rydym yn ei wneud ac mae gennym gyfrifoldeb ar y cyd i sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfle i fanteision ar ein gwasanaethau.

Rydym yn cydnabod bod gennym rôl bwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod holl aelodau ein cymunedau yn cael dweud eu dweud yn ein dyfodol cyffredin.

Bydd Cyngor Sir y Fflint:-	Bydd Cyngorau Tref a Chymuned:-
Cynnal arolygon lle y credir bod mynediad / symudedd wedi gwahaniaethu yn erbyn unigolyn	

MONITRO AC ADOLYGU

Bydd y Siarter yn ddogfen fyw a chaiff ei hadolygu bob blwyddyn neu'n amlach os bydd angen gwneud hynny.

Bydd Cyngor Sir y Fflint:-	Bydd Cyngorau Tref a Chymuned:-
Yn trefnu i'r Siarter gael ei hadolygu bob blwyddyn.	Yn cyfrannu at adolygu'r Siarter.
Yn trefnu i ddatblygu cynllun gweithredu blynyddol wedi'i gysylltu â'r Siarter.	Yn cyfrannu at ddatblygu a chyflwyno cynllun gweithredu'r Siarter.

